## Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) - Arolwg plant a phobl ifanc

Rydyn ni'n gofyn iti roi gwybod inni ym mha flwyddyn ysgol wyt ti, yr ardal (yn fras) wyt ti'n byw ynddi, a dy sylwadau ar dy addysg yn y dyfodol.

Senedd Cymru sy'n rheoli'r wybodaeth y byddi'n ei rhoi. Mae hyn yn golygu mai ni sy'n gyfrifol am unrhyw wybodaeth wyt ti'n ei rhannu â ni, a byddwn yn sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei defnyddio o fewn cyfreithiau diogelu data.

Bydd yn ofalus wrth roi manylion personol, fel gwybodaeth am dy iechyd di neu rywun arall, neu gredoau crefyddol. Rydym yn gofyn iti beidio rhoi gwybodaeth mewn ffordd a allai adnabod rhywun arall.

Rydym yn defnyddio Microsoft Forms ar gyfer yr holiadur ar-lein. Microsoft sydd hefyd yn gyfrifol am ein system gyfrifiaduron. Rydym wedi cymryd camau (fel contract ysgrifenedig, er enghraifft) gyda Microsoft i sicrhau eu bod nhw'n dilyn mesurau technegol ar draws y sefydliad i ddiogelu dy wybodaeth di, hyd yn oed os ydynt yn dal y data mewn gwledydd eraill.

Os oes gen ti gwestiwn am sut y byddwn ni'n defnyddio dy wybodaeth, cysyllta â:

diogelu.data@senedd.cymru

Swyddog Diogelu Data, Senedd Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN, 0300 200 6565

Os hoffet ti gysylltu â ni, ond ddim yn gwybod sut, gelli ofyn i rywun wyt ti'n ei nabod am help.

Bydd staff y Senedd a fydd yn cynnal y digwyddiad yn gallu gweld y wybodaeth wyt ti'n ei rhoi. Fyddwn ni ddim yn cyhoeddi dy atebion unigol di, ond rydyn ni yn gweithio gyda chwmni o'r enw Wavehill Ltd https://www.wavehill.com/ a fydd yn ein helpu ni i grynhoi'r atebion a gawn ni, a rhoi'r atebion hynny mewn adroddiad y byddwn yn ei gyhoeddi. Mae hyn yn golygu y byddwn ni'n rhannu'r holl atebion a gawn ni gyda'r cwmni hwnnw. Efallai y bydd yr adroddiad yn cael ei ddangos ar ein gwefan, ein cyfryngau cymdeithasol ac ar Senedd TV, a bydd fersiwn yn cael ei chadw am gyfnod amhenodol ar ein rhwydwaith TGCh diogel a gan yr Archifau Cenedlaethol.

Bydd y wybodaeth a gaiff ei rhannu â Wavehill yn cael ei chadw a'i defnyddio mewn ffordd ddiogel sy'n cadw at gyfreithiau diogelu data. Gelli ddarllen hysbysiad

preifatrwydd Wavehill sy'n sôn sut y bydd y cwmni yn ymdrin â dy wybodaeth ar wefan Wavehill https://www.wavehill.com/curriculum-assessment-wales-bill-pn

Os wyt ti'n iau nag 13 oed, bydd angen iti ofyn i oedolyn sy'n gofalu amdanat ti cyn iti ysgrifennu aton ni. Gelli ddangos y caniatâd hwn drwy e-bost gan dy riant neu warchodwr – dyma'r cyfeiriad e-bost: SeneddPPIA@Senedd.Cymru

Gall yr oedolion sy'n dy helpu di gael mwy o wybodaeth ar ein gwefan o ran beth fyddwn ni'n ei wneud gyda'r wybodaeth wyt ti'n ei hanfon https://senedd.wales/cy/help/privacy/Pages/help-inquiry-privacy.aspx